# ACT PEDWAR
# FFAWD A THYNGED

**A yw pobl yn rheoli eu dyfodol eu hunain ?**



**Amcanion**
Archwilio digwyddiadau a'r bobl yn ein bywydau sy'n gallu dylanwadu ar y penderfyniadau a wnawn. Archwilio sut y gellir defnyddio iaith i greu awyrgylch a naws. Annog disgyblion i edrych ar elfennau barddonol gwaith Shakespeare.

**Cysylltiadau â'r cwricwlwm**
Saesneg, Drama, Dinasyddiaeth, Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, Celf a Dylunio.

**Sgiliau a rhagolygon dinasyddiaeth**
Cyfathrebu, cydweithio, meddwl yn greadigol, datblygu empathi.

**Adnoddau angenrheidiol**
Siswrn, taflenni diemwnt naw, offerynnau cerdd, copïau o gân Ariel, cylchgronau, glud, cerdyn, offer recordio, deunyddiau celf neu ddarnau adeiladu, darnau o'r ddrama.

© RSC. Llun gan Ellie Kurttz.

## FFOCWS DYSGU

Gwneud penderfyniadau, defnydd Shakespeare o iaith a delweddau barddonol.

## CYFLWYNIAD

Mae rhai pobl yn credu bod tylwyth teg, gwrachod neu rymoedd anweledig yn rheoli ffawd a thynged. Roedd y rhain yn bynciau llosg yn y cyfnod pan oedd Shakespeare yn ysgrifennu. Roedd Brenin Iago I wedi ysgrifennu llyfr o'r enw **Daemonology** a oedd yn rhybuddio pobl am beryglon y goruwchnaturiol. Roedd pobl yn ystyried tylwyth teg ac ysbrydion yn beryglus, credai pobl y gallai gwrachod ddarogan y dyfodol, ac roedd hud a lledrith yn cynrychioli grymoedd anweledig yn y byd.

## GWEITHGAREDDAU CYNHESU

- Gofynnwch i'r disgyblion drefnu eu hunain mewn pump neu chwe llinell gyda nifer cyfartal ymhob un.
- Gofynnwch iddynt ymestyn eu breichiau fel eu bod yn sefyll ar bellter cyfartal oddi wrth ei gilydd, gan gyffwrdd blaen bysedd ei gilydd, er mwyn iddynt ffurfio rhwystrau.
- Sicrhewch fod digon o le rhwng y rhwystrau a'ch bod yn gallu symud yn rhwydd rhyngddynt. Ar y gorchymyn 'newid', gofynnwch iddynt droi 90 gradd gyda'u breichiau'n dal ar led, er mwyn iddynt greu llinellau sy'n mynd yn y cyfeiriad croes, a gwiriwch y llinellau hyn yn yr un modd.
- Dewiswch ddau wirfoddolwr, un i symud drwy'r grid ac un i sefyll y tu allan i'r grid. Dylai'r gwirfoddolwr cyntaf geisio symud drwy'r grid i gyrraedd y sawl sydd ar y tu allan.
- Wrth i'r disgybl yn y grid symud tuag at y gwirfoddolwr arall, gofynnwch i'r disgyblion newid cyfeiriad ar adegau priodol.
- Rhowch gyfle i rai disgyblion deimlo sut mae'n teimlo bod eu llwybr a'u cyfeiriad yn cael eu newid ar eu rhan.

Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd wych o gyflwyno'r cwestiwn ynglŷn â sut mae'n teimlo i gael grym y tu hwnt i'ch rheolaeth eich hun yn eich gorfodi i newid penderfyniadau yn eich bywyd. Gallwch hefyd deilwra'r gweithgaredd hwn mewn ffordd benodol, drwy ofyn i'r disgyblion yn y grid esgus mai coed ydynt, ac awgrymu mai'r gwirfoddolwr yw Helena, sy'n ceisio cyrraedd Demetrius tra bo hud a lledrith yn rheoli'r amgylchedd.

Ysgrifennodd Shakespeare at ddibenion barddonol a dramatig. Fel dosbarth, gwyliwch glip fideo o olygfa agoriadol **Macbeth,** a darllenwch y testun, a thrafodwch sut mae Shakespeare yn creu awyrgylch a thensiwn. Anogwch eich disgyblion i ddychmygu eu bod yn mynd i'r lle hwn. Beth fyddent yn ei weld, ei glywed a'i deimlo? Sut y byddai'r gwrachod efallai'n edrych a symud? Gofynnwch iddynt weithio mewn grwpiau bach a nodi syniadau, ymadroddion a brasluniau ar ddarnau mawr o bapur.

Gan ddechrau gyda'r llinell **'When shall we three meet again/In thunder, lightning or in rain?'**, gofynnwch iddynt ffurfio seinwedd gan ddefnyddio'r offerynnau cerdd a'r corff fel offeryn taro i greu argraff o'r olygfa sy'n adlewyrchu geiriau a syniadau Shakespeare. Ar ôl amser penodedig, gofynnwch i ddau ddisgybl chwarae rôl Banquo a Macbeth i dorri ar draws y cresendo pan fo'n briodol gyda'r llinell, **'So fair and foul a day I have not seen'**.

### ARCHWILIO GOLYGFEYDD AGORIADOL

**Er mwyn archwilio'r lleoliad a'r awyrgylch mewn drama, gallwch ddefnyddio iaith i ffurfio Seinwedd. Mae enghraifft o sut y gallai hyn weithio gyda Julius Caesar i'w gweld ar dudalen 56, ond gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw destun.**

# ARCHWILIO THEMÂU, SGILIAU A GWERTHOEDD DINASYDDIAETH

## ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**A yw pobl yn rheoli eu dyfodol eu hunain?**

Darllenwch araith Hermia yn **A Midsummer Night's Dream**, **Act 1 Golygfa 1**, ac araith Romeo yn **Romeo and Juliet**, **Act 1 Golygfa 4**. Trafodwch beth sy'n dylanwadu ar Hermia i redeg i ffwrdd, ac ar Romeo i gredu y bydd digwyddiadau'r noson yn arwain at drasiedi. Gofynnwch i'r grwpiau greu map meddwl yn dangos yr holl ffactorau a ddylanwadodd arnynt i ymddwyn mewn ffordd benodol. A wnaeth ofergoeliaeth neu 'ffawd' gyfrannu o gwbl?

Neu, gofynnwch i bob grŵp ddewis penderfyniad allweddol a wnaed gan gymeriad mewn drama y maent yn gyfarwydd â hi a gwneud yr un gweithgaredd.

Petai gennych benderfyniad pwysig i'w wneud ynglŷn â'ch dyfodol, pa ffactorau a fyddai efallai'n dylanwadu ar eich penderfyniad? Gofynnwch i'ch disgyblion weithio mewn grwpiau ac edrych ar y ffactorau sydd wedi'u rhestru ar y daflen weithgaredd. Torrwch y cardiau a dewis pa rai a fyddai'n dylanwadu fwyaf ar eich penderfyniad, yn eich tyb chi. Trefnwch y cardiau ar ffurf **diemwnt naw** yn nhrefn pwysigrwydd gyda'r pwysicaf ar y top a'r lleiaf pwysig ar y gwaelod. Dewch â'r dosbarth ynghyd i drafod p'un a oedd y dewisiadau a wnaed yn debyg.







## ! CYD-DESTUN

**Yn A Midsummer Night's Dream, mae Hermia mewn cariad â Lysander, ond mae ei thad yn ddig iawn ac yn dweud wrthi bod yn rhaid iddi briodi Demetrius. Mae ei thad yn adfer hen ddeddf sy'n dweud bod yn rhaid i ferch briodi'r sawl y mae ei thad yn ei ddewis, neu fel arall wynebu marwolaeth neu fyw fel lleian. Mae'n penderfynu rhedeg i ffwrdd gyda Lysander i'r goedwig yn y gobaith o redeg i ffwrdd i briodi.**

# DADANSODDIAD MANWL – IAITH FARDDONOL

Mae dramâu Shakespeare yn enwog am eu hiaith a'u delweddau cyfoethog. Pan fyddai pobl yn mynd i theatrau awyr agored i weld un o'i ddramâu, byddent yn mynd yno'n bennaf i glywed y ddrama, yn hytrach na'i gweld. Câi'r dramâu eu perfformio yn y prynhawn, gydag ychydig iawn o setiau ac effeithiau, a dynion a bechgyn fyddai'n chwarae'r rhannau i gyd, ond byddai'r gynulleidfa'n cael ei chludo i wledydd a bydoedd eraill gan iaith hudol y ddrama. Mae iaith Shakespeare yn arbennig o fyw ac atmosfferig pan fydd y bobl yn ei ddramâu yn dod i gysylltiad â bodau neu ysbrydion o fydoedd eraill.

Mae enghraifft o hyn i'w gweld yn y darn o gân Ariel yn **The Tempest**. Gofynnwch i'ch disgyblion ddarllen y darn hwn yn uchel ar y cyd. Trafodwch y defnydd o ddelweddau ac anogwch hwy i nodi'r technegau iaith fel odli, cyflythreniad ac onomatopoeia o fewn y pennill.

## ! CYD-DESTUN

**Yn The Tempest, Act 1 Golygfa 2, mae llong Ferdinand wedi'i dryllio, ac mae Prospero yn gorchymyn yr "Ysbryd Tylwythyn Teg", Ariel, i'w dywys ato. Gwna hyn drwy ganu cân. Mae'r geiriau'n effeithio ar Ferdinand, sy'n credu bod ei dad wedi boddi yn y llongddrylliad.**

# CYMHWYSO EICH DYSGU

Gwrandewch yn ofalus ar eiriau cân Ariel unwaith eto, a'r tro hwn côr plant sy'n ei chanu, fel rhan o Raglen Llais y Byd y British Council. Anogwch eich dosbarth i ymuno yn y gân a dychmygu'r darluniau byw y mae'r iaith yn eu cyfleu.

Gofynnwch i'ch disgyblion ddefnyddio lluniau o gylchgronau a geiriau o'r ddrama i greu collage sy'n dangos argraff o'r delweddau yn y gân.

Cân Shakespeare Llais y Byd British Council:
**https://schoolsonline.britishcouncil.org/classroom-resources/list/shakespeare-lives**



© RSC. Llun gan Reg Wilson.

# SUT MAE TYLWYTH TEG NEU YSBRYDION YN EDRYCH?


© RSC. Llun gan Alison Willmott.

Enghreifftiau o greaduriaid hudol Shakespearaidd – Derek, Frank a Ninja o Ysgol Gynradd Clapham Terrace.

Yn ystod y cyfnod pan oedd Shakespeare yn ysgrifennu, credai pobl fod tylwyth teg ac ysbrydion yn greaduriaid rhyfedd a oedd yn defnyddio hud a lledrith, a'u bod yn beryglus iawn. Gofynnwch i'ch disgyblion ddefnyddio eu dychymyg i ddylunio a chreu eu creaduriaid hudol Shakespearaidd eu hunain drwy ddefnyddio cyfrwng o'u dewis, a rhoi enw, pŵer arbennig a chyfrinach i bob cymeriad! Gallent ddefnyddio toes, clai sy'n sychu yn yr aer, deunyddiau wedi'u hailgylchu neu ddarnau LEGO®/ cit adeiladu.

Gofynnwch i'ch disgyblion dynnu ffotograffau o'u modelau, a defnyddio meddalwedd cyfrifiadur os yw ar gael, i greu cefndir cyffrous o'r ddrama neu ddefnyddio technegau stop-symudiad er mwyn ail-greu golygfa fel animeiddiad gydag effeithiau sain a darnau o'r ddrama.

## AC I GLOI...

- Yn ôl i'r cwestiwn gwreiddiol. A yw pobl yn rheoli eu dyfodol eu hunain? Pa ffactorau eraill sy'n gallu dylanwadu ar hyn?
- Beth yw gobeithion a breuddwydion eich disgyblion ar gyfer y dyfodol? Pa wybodaeth, sgiliau a rhinweddau y bydd eu hangen arnynt i gyflawni eu nodau?
- Petai un o ysbrydion hudol Shakespeare yn gallu gwneud un dymuniad ar gyfer eich dyfodol, beth fyddai'r dymuniad hwnnw?

## GWEITHGAREDDAU YSGOL BARTNER

- Recordiwch eich seinweddau a'u rhannu â'ch ysgol bartner. A allant ddyfalu pa olygfa Shakespearaidd sy'n cael ei chyfleu?
- Gallai'r ddwy ysgol ddysgu cân Ariel o'r adnoddau Llais y Byd a'i pherfformio ar y cyd dros Skype.
- Cyfnewidiwch fapiau meddwl a syniadau o'r gweithgaredd **diemwnt naw** a ffotograffau o'r collages a'r creaduriaid hudol.

## ADNODDAU YCHWANEGOL

# Macbeth Act 1 Golygfa 1

*Thunder and lightning. Enter three Witches*
**First Witch** When shall we three meet again?
In thunder, lightning, or in rain?
**Second Witch** When the **hurly-burly**'s done,
When the battle's lost and won.
**Third Witch** That will be **ere** the set of sun.
**First Witch** Where the place?
**Second Witch** Upon the heath.
**Third Witch** There to meet with Macbeth.
**First Witch** I come, **Grey Malkin**.
**Second Witch** **Paddock** calls.
**Third Witch** **Anon**.
All Fair is foul, and foul is fair:
Hover through the fog and filthy air. *Exeunt*

## ! TROSOLWG

**Yn Macbeth, Act 1 Golygfa 1, mae'r ddrama yn dechrau gyda mellt a tharanau, a'r tair gwrach yn penderfynu y bydd eu cyfarfod nesaf gyda Macbeth.**

## NODIADAU

**hurly-burly**: cythrwfl, twrw, gwrthdaro

**ere**: cyn

**Grey Malkin**: cath, sef ysbryd dewiniaeth y Wrach Gyntaf (ysbryd ar ffurf anifail sy'n gwneud gweithredoedd drwg ar ran gwrach)

**Paddock**: ysbryd dewiniaeth yr Ail Wrach, sef llyffant

**Anon**: cyn bo hir, mewn eiliad



© RSC. Llun gan Angus McBean.

## ? CWESTIYNAU ALLWEDDOL

**A yw pobl yn rheoli eu dyfodol eu hunain?**

Darllenwch araith Romeo yn **Romeo and Juliet**, **Act 1 Golygfa 4**. Trafodwch beth sy'n dylanwadu ar Romeo i gredu y bydd digwyddiadau'r noson yn arwain at drasiedi.

Gofynnwch i'r grwpiau greu map meddwl yn dangos yr holl ffactorau a ddylanwadodd ar Romeo, neu gymeriadau Shakespearaidd eraill y maent yn gyfarwydd â hwy, i ymddwyn mewn ffordd benodol yn ystod y ddrama. A wnaeth ofergoeliaeth neu 'ffawd' gyfrannu o gwbl?


© RSC. Llun gan John Haynes.

# Romeo and Juliet Act 1 Golygfa 4

**Romeo** I fear too early, for my mind **misgives**
Some consequence yet hanging in the stars
Shall bitterly begin his **fearful date**
With this night's revels and **expire** the term
Of a despised life closed in my breast
By some vile **forfeit** of untimely death.
But he that hath the steerage of my course,
Direct my suit. On, lusty gentlemen!

## ! TROSOLWG

**Yn Romeo and Juliet, Act 1 Golygfa 4, mae Romeo a'i ffrindiau ar eu ffordd i'r wledd yn nhŵ 'r teulu Capulet. Mae Romeo'n synhwyro ymlaen llaw beth all ddigwydd y noson honno.**

## NODIADAU

**misgives**: yn ofni /yn synhwyro ymlaen llaw

**fearful**: yn codi ofn

**date**: amser penodedig

**expire**: peri i'r cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer talu'n ôl ddod i ben (mae Romeo wedi morgeisio ei fywyd)

**forfeit**: cosb/colled

# A Midsummer Night's Dream Act 1 Golygfa 1

**Hermia** If then true lovers have been **ever crossed**,
It stands as an edict in destiny.
Then let us teach our **trial** patience,
Because it is a customary cross,
As due to love as thoughts and dreams and sighs,
Wishes and tears, poor **fancy's** followers.
**Lysander** A good **persuasion**. Therefore, hear me,
Hermia.
I have a widow aunt, a dowager
Of great revenue, and she hath no child.
From Athens is her house removed **seven leagues**,
And she **respects** me as her only son.
There, gentle Hermia, may I marry thee,
And to that place the sharp Athenian law
Cannot pursue us. If thou lov'st me then,
Steal forth thy father's house to-morrow night,
And in the wood, a league **without** the town,
Where I did meet thee once with Helena,
To **do observance to a morn of May**,
There will I **stay** for thee.
**Hermia** My good Lysander!
I swear to thee, by **Cupid**'s strongest bow,
By his **best arrow with the golden head**,
By the **simplicity** of Venus's **doves**,
By that which **knitteth** souls and prospers loves,
And by that fire which burned the **Carthage queen**,
When the **false Troyan** under sail was seen,
By all the vows that ever men have broke,
In number more than ever women spoke,
In that same place thou hast appointed me,
Tomorrow truly will I meet with thee.


© RSC. Llun gan Stewart Hemley.

## ! TROSOLWG

**Yn Act 1 Golygfa 1, A Midsummer Night's Dream, mae Hermia a Lysander yn penderfynu rhedeg i ffwrdd gyda'i gilydd ar ôl i dad Hermia, Egeus, fygwth ei lladd os na wnaiff briodi Demetrius, sef ei ddewis ŵr ar ei chyfer.**

## NODIADAU

**ever crossed**: wedi cael eu rhwystro rhag gwneud rhywbeth erioed

**trial**: profiad o'r prawf hwn

**fancy's**: cariad

**persuasion**: barn

**seven leagues**: tua 21 o filltiroedd

**respects**: yn ystyried

**without**: y tu allan

**do... May**: h.y. dathlu Gŵyl Fai

**stay**: aros

**Cupid**: duw cariad y Rhufeiniaid

**best... head**: h.y. yr un sy'n achosi cariad (credid bod saethau plwm Ciwpid yn cymell atgasedd)

**simplicity**: diniweidrwydd

**doves**: symbol o ffyddlondeb i rywun - yr adar hyn oedd yn tynnu cerbyd duwies cariad

**knitteth**: yn clymu â'i gilydd

**Carthage queen**: Dido, a gyflawnodd hunanladdiad ar ben tân pan adawodd Aeneas hi

**false Troyan**: Aeneas o Droea

# TAFLEN WEITHGAREDD 3 BETH SY'N DYLANWADU AR BOBL IFANC HEDDIW?

Llungopïwch y Daflen Weithgaredd a rhowch un i bob grŵp o fyfyrwyr. Gofynnwch iddynt dorri'r blychau allan a'u trefnu ar siâp **diemwnt naw** er mwyn dangos pa ffactorau sy'n effeithio arnynt pan fyddant yn gwneud penderfyniadau pwysig, gyda'r ffactor mwyaf dylanwadol ar y top. Mae'r blwch gwaelod wedi'i adael yn wag er mwyn iddynt ychwanegu un awgrym eu hunain.

## GEIRFA

**Diemwnt naw:** Gweithgaredd lle bydd myfyrwyr yn trefnu naw eitem neu ddewis yn nhrefn blaenoriaeth, ar siâp diemwnt gyda'r pwysicaf ar y top a'r lleiaf pwysig ar y gwaelod.

## ADNODDAU

- **Siswrn**
- **Peniau**
- **Papur**

| |
|---|
| **Barn rhieni neu ofalwyr** |
| **Ffydd** |
| **Y cyfryngau** |
| **Barn teulu estynedig** |
| **Yr ysgol ac athrawon** |
| **Barn ffrindiau** |
| **Cyfryngau cymdeithasol** |
| **Modelau rôl** |
| |